


# *Swyddog Llywodraethu a Gweinyddu'r Gadeirlan*

**Cadeirlan Deiniol Sant ym Mangor**

Saint Deiniol's Cathedral in Bangor

# *Swyddog Llywodraethu a Gweinyddu'r Gadeirlan*

Yn atebol i: Rheolwr Gweithrediadau
Lleoliad: Cadeirlan Bangor, gyda rhywfaint o hyblygrwydd gweithio o bell.
Cyflog: £32,700

## Pwrpas y swydd

Mae Cadeirlan Bangor yn dechrau pennod newydd gyffrous, gan gryfhau ei strwythurau llywodraethu i gefnogi ei cenhadaeth, ei gweinidogaeth a'i threftadaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Rydym yn chwilio am Swyddog Llywodraethu a Gweinyddu trefnus iawn, ymrwymedig a rhagweithiol i ymuno â'n tîm ac i chwarae rhan allweddol wrth sicrhau rhagoriaeth, atebolrwydd ac arfer gorau ym mhob agwedd ar lywodraethu'r Gadeirlan.

Mae hwn yn gyfle unigryw i gyfrannu at fywyd un o leoedd sanctaidd hanesyddol pwysicaf Cymru, gan weithio'n agos gyda'r Deon, y Rheolwr Gweithrediadau, a'r Deon a'r Cabidwl.



# Y Rôl

Fel Swyddog Llywodraethu a Gweinyddu, byddwch wrth galon gweithrediadau'r gadeirlan, gan sicrhau bod prosesau llywodraethu'n rhedeg yn esmwyth, yn effeithlon, ac yn unol â chyfraith elusennau, GDPR y DU, fframwaith rheoleiddiol yr Eglwys yng Nghymru, ac arfer gorau.

Bydd eich rôl yn cynnwys:

- Cefnogi'r Deon a'r Cabidwl a phwyllgorau'r gadeirlan drwy baratoi agendâu, papurau a chofnodion cywir
- Cynnal polisïau, rheolau sefydlog, cofrestrau risg a holl ddogfennau llywodraethu allweddol
- Monitro a chefnogi camau gweithredu sy'n deillio o gyfarfodydd
- Goruchwylio rheoli cofnodion ac archifo
- Darparu cefnogaeth weinyddol i dîm arweinyddiaeth y gadeirlan
- Arwain ar gyfrifoldebau'r MASO (Swyddog Diogelu Ardal Weinidogaethol), gan sicrhau bod hyfforddiant diogelu a gwiriadau DBS yn gyfredol
- Cyfrannu at agweddau llywodraethu prosiectau'r gadeirlan, gan gynnwys mentrau treftadaeth a ffabrig

Mae'r rôl hon yn gofyn am lefel uchel o uniondeb, disgresiwn a chywirdeb manwl — ac mae'n cynnig cyfle i wneud gwahaniaeth ystyrlon mewn amgylchedd ffydd-seiliedig.



# Cyfrifoldebau Allweddol

- O dan gyfarwyddyd y Rheolwr Gweithrediadau, bod yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â chyfraith elusennau, GDPR y DU, diogelu, a rheoliadau'r Eglwys yng Nghymru.
- Cynnal dogfennau llywodraethu, polisïau, rheolau sefydlog, a chofrestrau risg.
- Cefnogi gwaith y Deon a phwyllgorau'r Cabidwl a'r Gadeirlan, ac fel clerc y Cabidwl, paratoi agendâu a phapurau cyfarfodydd ar gyfer corff yr ymddiriedolwyr, cymryd cofnodion cywir a chynnal cofnodion llywodraethu.
- Monitro a chefnogi camau gweithredu sy'n deillio o gyfarfodydd.
- Cynnal yr holl ddogfennaeth lywodraethu gan gynnwys fframweithiau cyffredinol, cofrestrau risg, polisïau a fframweithiau cyffredinol, gan weithio'n agos gyda'r swyddog AD yn ôl yr angen.
- Cefnogi cydymffurfiaeth â gofynion llywodraethu elusennau. · Gweithredu rheoli a chadw cofnodion.
- Cymryd cyfrifoldeb am rôl y Swyddog Diogelu Ardal Weinidogaeth (MASO) trwy fonitro hyfforddiant diogelu a gwiriadau DBS, gan weithio'n agos gyda'r gwirfoddolwyr lleyg.
- Darparu cefnogaeth weinyddol gyffredinol i dîm arweinyddiaeth y gadeirlan.
- Cefnogi agweddau llywodraethu prosiectau'r gadeirlan gan gynnwys mentrau treftadaeth a ffabrig.



# *Manyleb y Person*

**Hanfodol**

Profiad

- Profiad o baratoi agendâu, cofnodion, adroddiadau a phapurau briffio
- Profiad o drin gwybodaeth gyfrinachol gyda disgresiwn
- Gwybodaeth am arfer da mewn llywodraethu

Sgiliau a chymwyseddau

- Ymrwymiad cryf i lywodraethu, cydymffurfiaeth a gweinyddu elusennau
- Ymrwymiad dwfn i ddiogelu mewn cyd-destun eglwysig neu elusennol
- Sgiliau trefnu rhagorol a'r gallu i reoli blaenoriaethau cystadleuol
- Sgiliau TG cryf, yn enwedig Microsoft 365 a SharePoint
- Sgiliau Cymraeg rhugl (llafar ac ysgrifenedig)

Nodweddion personol

- Rhinweddau personol o uniondeb, barn gadarn, ac aliniad â chenadaeth ac ethos Cadeirlan Bangor

Dymunol

- Profiad mewn sefydliad elusennol neu ffydd-seiliedig
- Cymwysterau llywodraethu neu weinyddol, neu barodrwydd i weithio tuag atynt
- Dealltwriaeth o adrodd ariannol elusennau neu dreftadaeth, neu awydd i ddysgu

## Pam Ymuno â Ni?

Mae gweithio yng Nghadeirlan Bangor yn golygu bod yn rhan o gymuned gynnes, gydweithredol a myfyriol. Byddwch yn cael boddhad o wybod bod eich gwaith yn cryfhau llywodraethu a stiwardiaeth lle byw o addoli, croeso, diwylliant a threftadaeth.

Mae'r rôl hon yn ddelfrydol i rywun sy'n ffynnu y tu ôl i'r llenni, yn mwynhau gwaith manwl, ac yn cymryd balchder mewn helpu sefydliad i weithredu ar ei orau.

## Sut i Wneud Cais

I gael pecyn cais neu drafodaeth anffurfiol am y rôl, cysylltwch â Tomos Dobson, Rheolwr Gweithrediadau, tomosdobson@cinw.org.uk

